

PEN Y MYNYDD



Dy ro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd!



Llangrannog Blwyddyn 7

Bu disgyblion Blwyddyn 7 yn wych yn Llangrannog eleni, gan roi cynnig ar bob gweithgaredd yn yr haul, y gwynt a'r glaw. Treulion nhw'r dyddiau'n saethu bwa a saeth, sglefrio, nofio, dringo'r rhaffau uchel, gyrru ceir modur ac yn rasio ar y quads a'r wal ddringo. Roedd y gwibgartio a'r weiren zip hefyd yn ffefrynnau mawr. Yn ystod y nosweithiau, cymerwyd rhan mewn sesiynau'n dysgu am Cranogwen (arwres o Llangrannog!), cwisiau, helpa drysor, gweithgareddau potes, Eisteddfod, côr, chwaraeon yn y neuadd a hyd yn oed disgo tawell! Roedd yr Eisteddfod yn uchafbwynt, gyda phawb yn perfformio'n hyderus ac yn mwynhau. Fe wnaethon nhw fwyta'n dda, gwneud ffrindiau newydd, a chreu atgofion arbennig drwy'r wythnos.

Year 7 Llangrannog

The Year 7 pupils were excellent in Llangrannog this year, throwing themselves into every activity in the sun, wind and rain. They spent their days doing archery, skiing, swimming, climbing the high ropes, driving go-karts and racing on the quads and the climbing wall. The toboggan and the zip wire were also big favourites. During the evenings, they took part in sessions learning about Cranogwen (a local heroine from Llangrannog), quizzes, treasure hunts, potes activities, the Eisteddfod, choir, sports in the hall and even a silent disco! The Eisteddfod was a highlight, with everyone performing confidently and enjoying themselves. They ate well, made new friends, and created special memories throughout the week.



Taith Gwlad yr Iâ

Roedd ein taith i Wlad yr Iâ yn brofiad bythgofiadwy. Wrth i ni gyrraedd, roedd y tirlun yn edrych fel rhywbeth o stori dylwyth teg – mynyddoedd eira, geysers yn ffrwydro'n syth o'r ddaear, a lliwiau gogoneddus yr aurora borealis yn dawnsio uwch ein pennau. Buom yn ymweld â rhaedrau anferth, yn archwilio caeau lafa tywyll, ac yn dysgu am hanes a diwylliant unigryw'r wlad. Roedd y tywydd yn her, ond ychwanegodd hynny at yr antur! Roedd y daith nid yn unig yn addysgol, ond hefyd yn llawn cyffro ac atgofion a fydd yn aros gyda ni am byth.

Iceland Trip

Our trip to Iceland was an unforgettable experience. When we arrived, the landscape looked like something out of a fairy tale – snow-covered mountains, geysers erupting straight from the ground, and the glorious colors of the aurora borealis dancing above our heads. We visited enormous waterfalls, explored dark lava fields, and learned about the country's unique history and culture. The weather was a challenge, but that only added to the adventure! The trip was not only educational but also full of excitement and memories that will stay with us forever.





Cystadleuaeth Cerdyn Nadolig

Llongyfarchiadau mawr i Tirion Warner, enillydd cystadleuaeth dylunio cerdyn Nadolig yr Adran Gelf eleni, i nodi pen-blwydd arbennig ein hysgol yn 25 oed! Dewiswyd ei dyluniad hardd – paentiad dyfrlliw o addum Nadolig wedi'i ysbrydoli gan Logo'r Ysgol – fel y cerdyn swyddogol ar gyfer y dathliadau. Bydd y cerdyn yn cael ei argraffu a'i ddosbarthu.

Christmas Card Competition

A huge congratulations to Tirion Warner, winner of this year's Art Department Christmas Card Design Competition, held to celebrate our school's special 25th anniversary! Tirion's beautiful design – a watercolour painting of a festive decoration inspired by the School Logo – has been chosen as our official card for the occasion. The card will now be printed and distributed.

Her Mathemateg

Ym mis Hydref, cymerodd criw Mathemateg a Mathemateg Bellach Blwyddyn 13 ran yng Nghystadleuaeth Senior Maths Challenge, cystadleuaeth genedlaethol sy'n cael ei chynnal ledled Prydain. Cafwyd llwyddiant arbennig, gyda 23 o ddisgyblion yn ennill tystysgrifau arian ac efydd – camp fawr ynddi ei hun! Ond aeth Ben Jones a Will Thomas gam ymhellach: nid yn unig y cipion nhw dystysgrif aur, ond fe gawsant hefyd wahoddiad i gystadlu yn rownd nesaf y gystadleuaeth.

Llongyfarchiadau i chi gyd, oddi wrth bawb yn yr Adran Fathemateg!

Mathematics Challenge

In October, the Year 13 Mathematics and Further Mathematics group took part in the Senior Maths Challenge, a national competition held across Britain. The pupils achieved fantastic success, with 23 students earning silver and bronze certificates – an impressive accomplishment in itself! But Ben Jones and Will Thomas went one step further: not only did they achieve gold certificates, but they also received an invitation to compete



in the next round of the competition.

Congratulations to you all, from everyone in the Mathematics Department!

Taith y Sgriblwy'r 2025: Adroddiad gan ferched clwb darllen bl.8

Cawsom flas ar fywyd prifysgol yn ystod diwrnod o weithdai creadigol ym Mhrifysgol Caerdydd fel rhan o Daith y Sgriblwy'r Gŵyl y Gelli 2025. Aneirin Karadog oedd yn arwain y diwrnod llawn hwyl, sbri a rapio! Bu rhai ohonon yn ddigon dewr i rannu ein cerddi dros y meicroffon ar ôl sesiwn farddoni gan Anni Llŷn a oedd yn ein cynorthwyo i allu ail-ddarganfod yr awen os oeddem yn 'mynd ar goll' yng nghanol ein proses ysgrifennu. Trwy ei straeon difyr a doniol, arweiniodd Mel Owen ni i sylweddoli bod camgymeriadau yn gallu sbarduno plotiau ardderchog. Yn sicr cawsom ein hysbrydoli i greu, barddoni ac ysgrifennu'n greadigol... pwy a wŷr - falle bod awdur y dyfodol yn ein plith!

Scribblers Tour 2025: A Report from the Year 8 Girls' Reading Club

We had a taste of university life during a day of creative workshops at Cardiff University as part of the Hay Festival's Scribblers Tour 2025. Aneirin Karadog led a day full of fun, excitement and rapping! Some of us were brave enough to share our poems over the microphone after an inspiring poetry session with Anni Llŷn, who helped us rediscover our inspiration whenever we felt 'lost' in the writing process. Through her entertaining and humorous stories, Mel Owen showed us that mistakes can spark excellent plot ideas. We certainly left feeling inspired to create, to write poetry and to express ourselves creatively... who knows – perhaps the next best-selling author is among us!



Ymweliad â'r Senedd

Aeth dosbarth Gwleidyddiaeth Blwyddyn 12 a 13 ar ymweliad i Senedd Cymru. Cafodd ein disgyblion brofiad addysgol gwerthfawr, gan ymweld ag ystafelloedd pwyllgor, gofyn cwestiynau am y system etholiad newydd ar gyfer etholiad Mai 2026, a gwyllo'r cyfarfod llawn, gan gynnwys cwestiynau i'r Prif Weinidog. Yn dilyn y cyfarfod llawn cafodd y disgyblion gyfle i gael sgwrs gyda'r Prif Weinidog, Eluned Morgan ac Arweinydd Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.

A visit to the Senedd

Year 12 and 13 Politics pupils went on a visit to the Welsh Parliament. Our pupils had a valuable educational experience, visiting committee rooms, asking questions about the new electoral system for the May 2026 election, and watching the full meeting, including questions to the First Minister. Following the full meeting, the pupils had the opportunity to have a conversation with the First Minister, Eluned Morgan, and the Leader of Plaid Cymru, Rhun ap Iorwerth.



Taith Carchar Shepton Mallet a Thaith i'r Mosg

Ymwelodd disgyblion Blwyddyn 10 sy'n astudio TGAU Athroniaeth, Moeseg a Chrefydd â Charchar Shepton Mallet yn ddiweddar. Roedd y daith hon yn gyfle ardderchog i ddyfnhau eu dealltwriaeth o system garcharu'r DU. Yn ystod y dydd, cymerodd y disgyblion ran mewn ymarfer adeiladu tîm drwy brofiad 'ffoi o'r gell'. Profiad bythgofiadwy!

Yn dilyn hyn, ymwelodd disgyblion Blwyddyn 9 â Mosg Canolog Llundain. Cafodd y disgyblion gyfle i brofi diwylliant Islamaidd yn uniongyrchol, gyda'r profiad o weld y weddi brynhawn yn rhan amhrisiadwy a gofiadwy o'r ymweliad.

A visit to Shepton Mallet and the Mosque

Year 10 GCSE Philosophy, Ethics and Religion students recently visited Shepton Mallet Prison. This trip provided an excellent opportunity to deepen their understanding of the UK prison system. During the day, students also took part in a team-building exercise through the Escape Room experience.

Following this, Year 9 pupils visited the London Central Mosque. They had the chance to experience Islamic culture firsthand, with witnessing the afternoon prayer being an invaluable and memorable part of the visit.

Diwrnod Ieithoedd y Byd

Ar ddiwrnod Ieithoedd y Byd, cynhaliwyd ystod eang o weithgareddau i ddatlu amrywiaeth ieithyddol y byd a daeth disgyblion yr ysgol yn lluo i fwynhau gyda'u ffrindiau. Ymhlith y gweithgareddau roedd heriau diddorol megis dyfalu'r wlad, adnabod enwau gwledydd drwy emojis, cwis baneri gwledydd a darganfod pa ieithoedd y mae enwogion yn eu siarad. Roedd y gweithgareddau yn hynod o ddifyr ac yn gyfle gwerthfawr i feithrin sgiliau arsylwi, cydweithio ac ymateb yn greadigol. Trwy gymryd rhan cafodd disgyblion eu hannog i fod yn fwy agored a brwdfrydig tuag at ddysgu ieithoedd newydd yn y dyfodol. Roedd yn ddiwrnod hynod o blesurus ble cafodd disgyblion yr ysgol ddealltwriaeth dyfnach o ddiwyllianau gwahanol ynghyd â gwerthfawrogiad mwy o gyfoeth ieithyddol y byd.

Marged Evans, Blwyddyn 13.

World Languages Day

On World Languages Day, a wide range of activities were held to celebrate the linguistic diversity of the world, and pupils from the school came together in large numbers to enjoy with their friends. Among the activities were interesting challenges such as guessing the country, identifying country names through emojis, a country flag quiz, and discovering which languages celebrities speak. The activities were extremely enjoyable and provided a valuable opportunity to develop observation, collaboration, and creative response skills. By taking part, pupils were encouraged to be more open and enthusiastic about learning new languages in the future. It was an extremely enjoyable day where pupils gained a deeper understanding of different cultures along with a greater appreciation of the world's linguistic richness.

Marged Evans, Year 13

Taith Lletygarwch, Gwesty St David's

Roedd taith Lletygarwch ac Arlwyio i flwyddyn 11 i Westy St Davids ym Mae Caerdydd wedi rhoi mewnwelediad cyffrous i ni ar y byd prysur lletygarwch. Drwy gydol y dydd, cawsom gyfle i archwilio gwahanol agweddau ar y diwydiant, gan ddsygu sut mae gwestai mawr yn marchnata eu gwasanaethau ac yn creu profiadau cofiadwy i'w gwesteion. Cymeron ni ran mewn sawl gweithdy ymarferol, gan gynnwys addurno siocled a gwneud 'mocktails' lliwgar, a oedd yn ein galluogi i ymarfer creadigrwydd. Dysgon ni hefyd sgiliau gwasanaethu allweddol fel cario hamfyrddau a chyflwyno bwyd a diod gyda hyder. Roedd yr ymweliad wedi ein helpu i ddeall y gwaith tîm, y manylder a'r proffesiynoldeb sydd ei angen yn y maes Lletygarwch.



Hospitality Visit to St David's Hotel

Our Year 11 Hospitality and Catering trip to the St Davids Hotel in Cardiff Bay gave us an exciting insight into the fast-paced world of professional hospitality. Throughout the day, we explored different aspects of the industry, learning how major hotels market their services and create memorable guest experiences. We took part in several hands-on workshops, including decorating chocolate and making colourful mocktails, which allowed us to practise creativity and attention to detail. We also learned key service skills such as carrying trays and presenting food and drinks with confidence. The visit helped us understand the teamwork, precision, and professionalism required in hospitality.



Hafan a Lles

Roedd Yr Hafan yn llawn cyffro wrth i ddisgyblion a staff ddathlu eu 'Bake-Off' blynyddol cyntaf. Pobodd y disgyblion eu cacennau, bisgedi a chacen-gaws yn annibynnol gartref ac yn falch daethant â nhw i mewn i'w beirniadu. Roedd y bwrdd cystadleuol yn llawn danteithion lliwgar, creadigol ac wedi'u cyflwyno'n ofalus, i gyd yn dangos Parch, Cymreictod a Dyfalbarhad gydag elfen o ddychymyg trawiadol. Canmolodd y beirniaid yr enghreifftiau am eu blas a'u gwreiddioldeb. Anogodd y digwyddiad hefyd y disgyblion i feithrin hyder drwy ddilyn ryseitiai, mesur cynhwysion a chwblhau tasgau yn hollol annibynnol. Gyda thystysgrifau, llawer o wenu a chymaint o falchder, roedd y 'Bake-Off' yn llwyddiant ysgubol!

Hafan and Wellbeing

The Hafan ASD Base was full of excitement as pupils and staff celebrated their first annual Bake Off. Students baked their cakes, biscuits and cheesecake independently at home and proudly brought them in for judging. The competition table was filled with colourful, creative and carefully presented treats, all showcasing impressive effort and imagination. Judges praised the entries for both flavour and individuality. The event also encouraged pupils to build confidence by following recipes, measuring ingredients and completing tasks on their own. With certificates, big smiles and plenty of pride, the Bake Off was a huge success and is set to become an annual tradition.



Diwrnod Dathlu Gwobr Dug Caeredin

Ym mis Tachwedd cafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 10 gyfle i gymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau oedd y dathlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg Gwobr Dug Caeredin ym Mae Caerdydd. Fel rhan o'r diwrnod caswant gyfle i gwrrd â'r Tywysog Edward yn ystod ei ymweliad â'r Senedd a Bae Caerdydd. Cafodd y disgyblion brofiadau gwerthfawr yn datrys problemau, yn gweithio fel tîm ac yn datblygu sgiliau newydd.

Duke of Edinburgh Award Celebration Day

In November, a group of Year 10 pupils had the opportunity to take part in a day of activities celebrating Welsh-medium provision for the Duke of Edinburgh Award in Cardiff Bay. As part of the day, they had the chance to meet Prince Edward during his visit to the Senedd and Cardiff Bay. The pupils gained valuable experiences in problem-solving, working as a team, and developing new skills.



Cwrs Preswyl Creadigol

Cafodd Mabli Vaterlaws, blwyddyn 13, ei dewis yn un o bymtheg disgybl drwy Gymru gyfan i fynychu gweithdy ysgrifennu creadigol yng nghanolfan Tŷ Newydd, Llanystumdwy fel rhan o brosiect ar y cyd rhwng Prifysgolion Cymru a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Treuliodd y penwythnos ar y cwrs preswyl yn meithrin a datblygu sgiliau i ysgrifennu'n creadigol a derbyn sesiynau mentora.

Dyma ei phrofiad:

'Pleser oedd cael treulio penwythnos yn Nhŷ Newydd yn ddiweddar er mwyn ysgrifennu, darllen a thrafod ag eneidiau hoff cytŷn. Cafwyd gweithdai diddorol gan ddarlithwyr sy'n siŵr wedi ysbrydoli pob un ohonom i barhau i farddoni yn y Gymraeg, ac roedd digon o ddeunydd 'sgwennu i'w gael yn y tywydd gwlyb, y tŷ deniadol a'r golygfeydd o dirwedd anhygoel Cymru. Gobeithiaf gael dychwelyd yn fuan – dwi'n methu'r lle yn barod!'

Edrychwn ymlaen at ddarllen gwaith creadigol Mabli yn fuan a phob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Creative Writing Workshop

Mabli Vaterlaws, Year 13, was chosen as one of fifteen pupils from across Wales to attend a creative writing workshop at the Tŷ Newydd centre in Llanystumdwy, as part of a joint project between Wales' Universities and the Coleg Cymraeg Cenedlaethol. She spent the weekend on the residential course nurturing and developing her creative writing skills and receiving mentoring sessions.

Here is her experience:

'It was a pleasure to spend a weekend at Tŷ Newydd recently to write, read and discuss with like-minded kindred spirits. We had interesting workshops from lecturers who no doubt inspired all of us to continue writing poetry in Welsh, and there was plenty of 'writing material' to be found in the wet weather, the charming house, and the views of Wales's incredible landscape. I hope to return soon – I already miss the place!'

We look forward to reading Mabli's creative work soon and wish her all the very best for the future.



CORNEL Y CELFYDDYDAU | EXPRESSIVE ARTS

Swyn y Gân

Llwyfanwyd ein sioe gerdd flynyddol, Swyn y Gân ym mis Tachwedd ac am brofiad bu hyn. Cafodd dros 100 o ddisgyblion y profiad o berfformio bedair gwaith o nos Lun i nos Iau ac yn llythrennol fe swynwyd y gynulleidfa gan berfformiadau o'r radd flaenaf - o'r prif gymeriadau i'r corws, i'r band. Gwelwyd talent, safon a phroffesiynoldeb ar y llwyfan bob un noson ac mae'r disgyblion wedi cael profiadau bythgofiadwy, profiadau fydd gyda nhw drwy gydol eu bywydau. Roedd y cynhyrchiad yn adlewychu cydweithio corff cyfan o staff ar a disgyblion ar ei orau gyda phawb yn tynnu at ei gilydd ac yn cyfrannu at wahanol agweddau er mwyn gwneud cynhyrchiad fel hyn yn bosib ac yn llwyddiannus. Arbennig ac ymlaen at y nesaf!'

The Sound of Music

Our annual musical show, The Sound of Music, was staged in November and what an experience it was. Over 100 pupils had the opportunity to perform four times from Monday to Thursday evenings, and the audience was literally enchanted by top-class performances—from the lead roles to the chorus and the band. Talent, quality, and professionalism were evident on stage every single night, and the pupils have gained unforgettable experiences that will stay with them throughout their lives.

The production reflected the very best of whole-school collaboration between staff and pupils, with everyone pulling together and contributing to different aspects to make such a production possible and successful.

Outstanding—and onwards to the next one!



Yr Adran Gerddoriaeth

Mae hi wedi bod yn hanner tymor prysur iawn yn yr Adran Gerddoriaeth. Ym mis Hydref cymerodd ddisgyblion o wahanol flynyddoedd ran ym mhrosiect Cerddorfa De Cymru. Roedd 11 o ysgolion yn rhan o'r fenter hon ac wedi diwrnod yn unig o ymarfer fe gynhaliwyd cyngerdd arbennig yng Neuadd Hoddinott, Canolfan y Mileniwm.

Mae'r Côr hŷn hefyd wedi profi cryn lwyddiant drwy ennill y wobwr 1af yn Eisteddfod y Cymoedd a chynnal cyngerdd gyda Chôr Meibion Taf a Seindorf Bro Morgannwg. Cynhaliwyd y noson yn Neuadd yr ysgol a chafwyd gwledd o ganu Nadoligaidd cyn cyrraedd yr uchafbwynt pan ganodd y ddau gôr fersiwn hyfryd o 'Iesu Yw' gyda'i gilydd. Noson a chyngerdd arbennig..

The Music Department

It has been a very busy half-term in the Music Department. In October, pupils from different year groups took part in the South Wales Orchestra project. Eleven schools were involved in this initiative and, after just one day of rehearsal, a special concert was held at Hoddinott Hall, Wales Millennium Centre.

The senior choir has also enjoyed great success by winning first prize at the Valleys Eisteddfod and hosting a concert with Taf Male Voice Choir and Bro Morgannwg Wind Band. The evening took place in the school hall and featured a feast of Christmas singing, culminating in a beautiful joint performance of 'Iesu Yw' by both choirs. A truly special evening and concert.



Dawnsio i blant bach Ysbyty Arch Noa

Aeth criw o ddisgyblion Blwyddyn 12 a 13 i Ysbyty Arch Noa i berfformio cyfres o ddawnsfeydd i'r nyrsys a'r plant yn Ysbyty Arch Noa, Caerdydd yn ddiweddar. Bu'n brofiad emosiynol i'r criw dawns ac roedd yr ymateb y plant bach a'r wên ar eu hwynebau yn dweud y cyfan. Roeddent wrth eu boddau. Roedd y criw daws yn falch o fedru gwneud eu rhan falch mewn gwella Nadolig y plant bach fydd yn treulio'r Nadolig yn yr Ysbyty.

Dancing for Young Children at Noah's Ark Hospital

A group of Year 12 and 13 pupils recently went to Noah's Ark Hospital in Cardiff to perform a series of dances for the nurses and children there. It was an emotional experience for the dance crew, and the children's reactions and the smiles on their faces said it all. They absolutely loved it. The dance crew were very happy to do their little bit in improving Christmas for the children that will spend their Christmas in hospital.



Trawsgwlad Rhyngysol

Cawsom ddiwmod hyfryd ddechrau mis Medi wrth i ddisgyblion Blynyddoedd 7-10 gymryd rhan yn y gystadleuaeth trawsgwlad rhyngysol blynyddol. Mae'r weithgaredd hon yn dyst i ddyfalbarhad ein disgyblion. Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran ac yn arbennig i'r isod am fod yn bencampwyr 2025.



Inter-House Cross Country

We had a wonderful day at the start of September as pupils from Years 7-10 took part in the annual inter-school cross-country competition. This activity is a testament to the perseverance of our pupils. Congratulations to everyone who took part, and especially to the following for being the 2025 champions:



Pencampwyr Bl 7 | Year 7 Champions

Gwen Simpkins a Joseff Rodgers

Pencampwyr Bl 8 | Year 8 Champions

Satino Proctor a Cadi Owen

Pencampwyr Bl 9 | Year 9 Champions

Tomos Austin a Nia Lewis

Pencampwyr Bl 10 | Year 10 Champions

Seren Richards a Jaxon Browne

Timau Trawsgwlad

Mae ein timau trawsgwlad bechgyn a merched wedi profi cryn lwyddiant yn eu cystadlaethau eleni. Maent wedi dangos dygnwch a dyfalbarhad wrth redeg mewn pob math o dywydd heriol. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt am eu gwaith caled.

Crosscountry Teams

Our boys' and girls' cross-country teams have enjoyed great success in their competitions this year. They have shown resilience and perseverance while running in all kinds of challenging weather. Congratulations to each and every one of them for their hard work



Bocsio Cic Cymru

Llongyfarchiadau i Ioan Thomas (bl.10), Lexi Staniforth (Bl.9), Saxxon Woodfin (Bl.8), Alaw Thomas (Bl.7) a Dafydd Garfield (Bl.7) ar gael eu dewis yng ngharfan Cic-Focsio Cymru eleni. Fe wnaeth y 5 disgybl gystadlu ym mhencampwriaethau y Byd yn Abertawe ym mis Hydref.

Kick-boxing Wales

Congratulations to Ioan Thomas (Yr.10), Lexi Staniforth (Yr.9), Saxxon Woodfin (Yr.8), Alaw Thomas (Yr.7) a Dafydd Garfield (Yr.7) on being selected in the Welsh Kick-boxing squad this year. They all competed in the World championships in Swansea in October.



Llwyddiant Dwy Chwaer

Llongyfarchiadau enfawr i'r ddwy chwaer, Cadi Owen (Bl.8) a Medi Owen (Bl.11) sydd wedi serennu yng nghyfes Triathlon Cymru eleni. Cadi yn dod yn 2il ar ddiwedd y tymor a Medi yn cipio'r drydedd safle! Da iawn chi ferched!

Success of Two Sisters

Congratulations to the two sisters, Cadi Owen (Yr.8) and Medi Owen (Yr.11) on shining in the Welsh Triathlon Series. Cadi achieved 2nd place overall at the end of the season, whilst Medi was 3rd. Well done girls!



Gymnasteg Nofisiaid

Yn dilyn wythnosau o ymarfer caled, roedd y criw yma wedi perfformio yn wych yng nghystadleuaeth Caerdydd a'r Fro ac yna yn mhencampwriaethau Cymru. Mae'r canlyniadau isod yn dyst i'w hymroddiad, ymdrech ac agwedd bositif. Llongyfarchiadau mawr!

Novice Gymnastics

Following weeks of training, this special group of gymnasts performed to a very high standard in both the Cardiff and Vale Schools gymnastics competition and then at the Welsh Schools Championships. The results below are a testament to their dedication, effort, and positive attitude. Huge congratulations!



Karate Cymru

Llongyfarchiadau i Bailey Wheeler o fl.9 ar gipio'r fedal aur ym Mrydain yng Nghystadleuaeth Kumite ym Mhencampwriaethau agored Karate Prydain. Da iawn ti Bailey.

Karate Championship

Congratulations to Bailey Wheeler from year 9 on winning gold I the Kumite competition at the British Open Karate Championships. Well done Bailey.

Merched Bl.7 | Year 7 Girls

3ydd yng Nghymru | 3rd in Wales

Bechgyn Bl.7 | Year 7 Boys

1af yng Nghymru | 1st in Wales

Merched Bl.8+9 | Year 8 and 9 Girls

1af yng Nghymru | 1st in Wales

Bechgyn Bl.8+9 | Year 8 and 9 Boys

1af yng Nghymru | 1st in Wales



Noson Agored

Diolch yn fawr i'r criw anhygoel yma ar gynorthwyo yr adran Addysg Gorfforol a'r adran Ddawns yn ystod y noson agored diweddar.

Open Evening

Thank you very much to this amazing group of students for assisting the Physical education and Dance departments during the recent open evening.



Hwyllo Cymru

Llongyfarchiadau i Sienna Watts (Bl.8) ar gael ei dewis yn nghanfan hwyllo Cymru unwaith eto eleni.

Welsh Sailing

Congratulations to Sienna Watts (Yr.8) on her selection to the Welsh Sailing Squad again this year.



Trawsgwlad Ysgolion Cymru

Teithiodd 62 disgybl o flynyddoedd 7-13 i Aberhonddu ym mis Tachwedd i gystadlu ym Mhencampwriaethau Trawsgwlad Ysgolion Cymru. Llongyfarchiadau i bob un ar gynrychioli'r Ysgol mor dda. Llongyfarchiadau mawr i ferched Bl.9 a 10 ar ddod yn 2il yng Nghymru!

Schools' Cross-Country Championships

62 students travelled to Brecon in November to compete in the Welsh Schools' Cross-Country Championships. They all represented the school exceptionally well. Congratulations to the year 9 and 10 girls on achieving 2nd in Wales.



Rygbi Ysgolion Cymru

Mae Tîm Rygbi XV 1af yr ysgol wedi profi llwyddiant aruthrol yn ystod y tymor hwn ac wedi cyrraedd rownd derfynol Ysgolion Cymru heb gollu un gêm. Maen nhw wedi gweithio'n ddiflino fel tîm, wedi ymarfer yn galed ac wedi cynnal a chefnogi ei gilydd gan adlewyrchu gwerthoedd yr ysgol o Barch, Cymreictod a Dyfalbarhad ymhob agwedd.

Nos Iau Rhagfyr 12fed oedd y goron ar y cyfan ac rydym yn falch o gael dweud eu bod bellach yn Bencampwyr Cymru wedi sicrhau buddugoliaeth o 41-12 yn stadiwm y Principality. Llongyfarchiadau mawr iawn. Rydym mor falch o'u llwyddiant.

Welsh School's Rugby

The school's First XV Rugby Team has enjoyed tremendous success this season, reaching the Welsh Schools final without losing a single game. They have worked tirelessly as a team, trained hard, and supported each other, reflecting the school's values of Respect, Welshness, and Perseverance in every aspect.

Thursday, December 12th was the crowning moment, and we are proud to say that they are now Welsh Champions following a convincing win of 41-12 in the Principality stadium. A huge congratulations. We are immensely proud of them all.



Pêl-droed Cymru o dan 16

Llongyfarchiadau mawr i Alffi Hughes (Bl.11) sydd wedi bod yn cynrychioli, ac yn gapten a'r garfan o dan 16 oed Cymru allan yn Twrci yn ddiweddar. Fe wnaeth y garfan chwarae Twrci, Lloegr a Portiwgall! Da iawn ti Alffi a'r garfan oll!

Wales Under 16 Football

Congratulations to Alffi Hughes (Yr.11) who has recently represented and captained the Welsh under 16 football team in Turkey. The team played Turkey, England and Portugal.

@ysgolyfro

www.ygbm.cymru



Am y newyddion diweddaraf, gwylwch vlog y pennaeth ar Instagram a gwefan yr ysgol.

For the latest news, watch the heads vlog on Instagram and the school website.